

**CYNGOR BWRDEISTREF SIROL
RHONDDA CYNON TAF**

GWŶS I GYFARFOD

P J Lucas
Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol
Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf
Y Pafiliynau
Parc Hen Lofa'r Cambrian
Cwm Clydach CF40 2XX

Ffôn: (01443) 424099 – Mrs.Z.Maisey

DYMA WŶS I CHI i gyfarfod o **GYNGOR BWRDEISTREF SIROL RHONDDA CYNON TAF** sydd i'w gynnal yn Swyddfeydd Cyngor y Fwrdeistref Sirol, Y Pafiliynau, Parc Hen Lofa'r Cambrian, Cwm Clydach, **brynhawn Mercher, 30 Hydref 2013 am 5.00 p.m.**

AGENDA

Tudalennau

DATGANIAD BUDDIANT:

- 1** Derbyn datganiadau o fuddiannau personol gan gynghorwyr, yn unol â gofynion Côt Ymddygiad y Cyngor:

1. Mae gofyn i aelodau i ddatgan rhif a phwnc yr agendwm mae eu buddiant yn ymwneud ag ef a mynegi natur y buddiant personol hwnnw; a
2. Lle bo aelodau'n ymneilltuo o'r cyfarfod o ganlyniad i ddatgelu buddiant personol sy'n rhagfarnu, mae **rhaid** iddyn nhw roi gwybod i'r Cadeirydd pan fyddan nhw'n gadael.

- 2 CYHOEDDIADAU**

- 3 COFNODION**

Cadarnhau cofnodion o gyfarfod y Cyngor a gynhaliwyd 1 – 11 ar 25 Medi 2013 yn rhai cywir.

LLYWODRAETHU AGORED

- 4 DATGANIADAU** yn unol â gofynion Rheol Dull Gweithredu 2

Derbyn datganiadau gan Arweinydd y Cyngor a/neu Gynghorwyr sy'n Aelodau o'r Cabinet mae gyda nhw

gyfrifoldebau gweinyddu.

5 CWESTIYNAU GAN Y CYNGHORWYR

- (1) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol L.Walker i Arweinydd y Cyngor (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol A.Christopher).**

"Pa gamau mae'r weinyddiaeth hon yn eu cymryd i gyflwyno gwiriadau cefndir troseddol gorfodol ar gyfer holl Gyngorwyr yn RhCT gan fod cais Rhyddid Gwybodaeth diweddar yn dangos mai dim ond dau gyngorydd sydd yn dal tystysgrifau o'r math yma ar hyn o bryd?"

- (2) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Rees-Owen i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Datblygu'r Economi a Chymunedau Diogel (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol P.Cannon,QPM)**

"A wnewch chi roi datganiad ar Strategaeth y Cyngor ar gyfer Datblygu'r Economi?"

- (3) **Cwestiwn gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol M.Weaver i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Adnoddau Dynol a Gwella Gwasanaethau (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol C.Willis).**

"A wnewch chi roi datganiad ar strategaeth cynllunio'r gweithlu ar gyfer y dyfodol?"

- (4) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol K.Morgan i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Addysg, Medrau a Dysgu Gydol Oes (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol (Mrs) E. Hanagan)**

"A wnewch chi roi datganiad ar Addysg a Datblygu Sgiliau ôl-16 oed?"

- (5) **Gan Gyngorydd y Fwrdeistref Sirol S.Evans-Fear i'r Aelod o'r Cabinet ar faterion Cyfiawnder Cymdeithasol (Cyngorydd y Fwrdeistref Sirol C.Middle)**

"A wnewch chi roi datganiad ar Dai Gwarchod?"

ADRODDIADAU'R SWYDDOGION

- 6 RHAGLEN CYMRU AR GYFER GWELLA – ADRODDIAD 2012/13 AR GYNLLUN GWELLA'R**

CYNGOR

- Trafod adroddiad y Prifweithredwr 13-188
- 7 Ymddiswyddiad Uwch Grwner Ei Mawrhydi ar ran cylch Pen-y-bont ar Ogwr, Cymoedd Morgannwg a Phowys.**
- Trafod adroddiad ar y cyd Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol a Chyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol 189-191
- 8 Adolygu ffurflenni Datganiadau o fuddiant Cynghorwyr – argymhellion y Pwyllgor Safonau**
- Trafod Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol 193-202
- 9 Dogfen ymgynghori parthed Gorchymyn Personau Dynodedig (Rhif 1) Mesur Llywodraeth Leol (Cymru) 2011.**
- Trafod Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol 203-217
- 10 Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Trefniadau Gweithrediaeth) (Swyddogaethau a Chyfrifoldebau) (Cymru) (Diwygio) 2007 - Deddf Deilwyr Metel Sgrap 2013 - argymhellion Pwyllgor Materion Llywodraethu Corfforaethol a'r Cyfansoddiad**
- Trafod Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol 219-222
- 11 Newid mewn Aelodaeth - Pwyllgor Penodi Llywodraethwyr AALI**
- Trafod Adroddiad Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol 223-224
- 12 Penodi Prifweithredwr**
- Trafod Adroddiad Cyfarwyddwr Adnoddau Dynol 225-226
- 13 RHYBUDD O GYNNIG**
- Trafod Rhybudd o Gynnig sydd wedi'i gyflwyno yn enwau Cynghorwyr y Fwrdeistref Sirol P.Jarman, C.Davies, K.Morgan, S.Evans-Fear, E.Webster, S.Rees-Owen, M.Weaver, I.Pearce a G.R.Davies:


"Bod y Cyngor hwn yn gresynu at anghyfiawnder "Treth yr Ystafell Wely".

O ganlyniad, mae'r Cyngor yn pryderu'n fawr am effaith y dreth ar iechyd a lles y bobl sydd yn dioddef yn sgil y newid anghyfiawn yma i fudd-dal tai gan y Llywodraeth Geidwadol/Rhyddfrydol.

Mewn ymdrech i liniaru ar effaith waethaf rheoliadau "Treth yr Ystafell Wely", mae'r Cyngor yn addo cyflwyno gohebiaeth swyddogol gerbron Landlordiaid Tai Cymdeithasol sy'n gweithredu yn Rhondda Cynon Taf a gofyn iddyn nhw beidio â throi allan tenantiaid sydd mewn dyled o ganlyniad i "Dreth yr Ystafell Wely".

Yn ogystal, mae'r Cyngor yn addo cyflwyno cais gerbron Llywodraeth Cymru i gyhoeddi canllawiau i atal yr hawl i droi tenantiaid allan hyd nes bydd "Treth yr Ystafell Wely" yn cael ei ddiddymu."

- 14** Trafod unrhyw faterion sydd, yn ôl doethineb Maer y Cyngor, yn faterion brys yng ngoleuni amgylchiadau arbennig.



Cyfarwyddwr y Gwasanaethau Cyfreithiol a Llywodraethol

I: Pob aelod o'r Cyngor

23 Hydref 2013